# Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

## Teitl: CYNLLUN GWOBRWYO TENANTIAID

**Datganiad Polisi**

1) Mae'r Gymdeithas yn gwerthfawrogi mewnbwn tenantiaid ac mae ganddi ymrwymiad i wella ein gwasanaethau drwy gyfranogiad tenantiaid effeithiol.

2) Mae'r Gymdeithas yn dymuno annog mwy o gyfranogiad drwy gynnig cymhellion.

3) Mae gan y Gymdeithas ymrwymiad i sicrhau fod y tenantiaid hynny sydd yn cymryd rhan ac yn rhoi eu hamser yn cael eu gwobrwyo ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

**Amlinelliad o'r Cynllun:**

Diben y cynllun yw gwobrwyo presenoldeb ac ymgyfraniad yng ngweithgareddau'r Gymdeithas. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Mynychu'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr, hyfforddiant neu weithgorau gyda staff. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn y math yma o weithgaredd yn ennill dau sticer. Dyfernir un sticer hefyd i'r rhai sy'n gorffen rhai arolygon.

Nid yw'r uchod ond enghreifftiau o'r math o weithgaredd y rhoddir sticeri amdanynt. Mae rhestr lawn yn yr atodiad amgaeedig.

Y wobr yw taleb rhodd, sydd o werth nominol ond serch hynny o werth i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y digwyddiadau. Taleb rhodd yn hytrach nag arian yw'r wobr er mwyn osgoi problemau gyda budd-daliadau a chyfyngiadau Atodlen 1. Bydd y gwobrau sydd ar gael o fewn y gweithgareddau a ganiateir yn Atodlen 1.

**Meysydd Perfformiad Allweddol:**

A. Caiff lefel ymgyfraniad tenantiaid ei fonitro bob mis drwy'r adroddiad Mesur.

B. Caiff y strategaeth leol bresennol ar gyfranogiad tenantiaid ei hadolygu'n rheolaidd a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru. (Dyddiad cyflwyno'r nesaf yw 31 Hydref 2011).

| | |
|---|---|
| **Diben:** | ➢ Annog mwy o gyfranogiad drwy roi cymhelliant.<br>➢ Sicrhau fod y tenantiaid hynny sy'n cymryd rhan yn cael eu gwobrwyo ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br>➢ Y brif nod yw darparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid ac felly gynyddu boddhad cwsmeriaid. |
| **Cyfeirnod:** | Polisi Gwobrwyo Tenantiaid (f1) Medi 2011 |
| **Dyddiad** | Medi 2011. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyhoeddi:** | | |
| **Dyddiad Adolygu:** | Medi 2012. | |
| **Adrannau/ Unedau yr effeithir arnynt** | Pob adran | |
| **Cymeradwyir gan:** | Bwrdd Rheoli – 28 Medi 2011. | |
| **Swyddog Arweiniol:** | Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid | |
| **Cydymffurfiaeth Statudol** | Cod Rheoleiddiol Cymdeithasau Tai sydd wedi cofrestru yng Nghymru:<br>2.2.4 Dylai cymdeithasau annog:<br>Ymgyfraniad preswylwyr<br>Strategaeth genedlaethol<br>Cyfle Cyfartal | |
| **Ffactorau Risg Strategol** | • Y bydd y Gymdeithas yn methu cyflawni safonau gofynnol drwy beidio cynnwys tenantiaid mewn meysydd allweddol cyflenwi gwasanaeth.<br>• Bod ymgyfraniad tenantiaid yn cynyddu mor sylweddol fel bod y cynllun gwobrwyo yn uwch na'r gyllideb a bennwyd. | |
| **Archwiliad Effaith ar Gydraddoldeb** | *Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?* | Mae'r cynllun gwobrwyo ar agor i bob tenant beth bynnag eu hil, rhywedd, anabledd ac ati |
| | *A deimlir y gallai'r Polisi hwn fod ag effaith niweidiol ar wahanol grwpiau? Os felly beth yw'r cyfiawnhad ar gyfer hyn ac a gaiff hynny ei ganiatáu'n gyfreithiol?* | Ni ddisgwylir yr effeithir yn niweidiol ar unrhyw grwpiau neu unigolion |
| | *A ofynnwyd i unrhyw grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly beth oedd y canlyniad?* | Na |
| **Cyswllt Tenantiaid** | *Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?* | Bydd yn helpu i annog mwy o gyswllt tenantiaid ac i'n tenantiaid deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso |
| | *Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?* | |
| | *A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?* | Do - drwy'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr |